RHIFEDD

# B2

# Deunyddiau sampl gweithdrefnol

Profion Rhifedd Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Deunyddiau sampl gweithdrefnol: Canllawiau i athrawon

Bydd y profion gweithdrefnol yn cael eu cyflwyno gyntaf mewn ysgolion yn 2013. Mae eitemau sampl wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer pob grŵp blwyddyn i ddangos y gwahanol fathau o gwestiynau a fformatau ar gyfer ymateb.

Mae'r eitemau sampl yn cyd-fynd yn agos â'r fframwaith rhifedd ac maent yn adlewyrchu'r galw a ragwelir. Fodd bynnag, nid ydynt yn bapurau cyflawn: bydd nifer y marciau yn y profion yr haf nesaf yn amrywio o oddeutu 28 o farciau ar gyfer y grwpiau blwyddyn is i tua 36 o farciau ar gyfer dysgwyr hŷn. Bydd pob prawf yn para 30 munud.

- ***Sut i ddefnyddio'r eitemau sampl***

Gellir argraffu'r eitemau sampl a'u defnyddio i ymarfer cyn y profion. Yna gellir nodi cryfderau a meysydd i wella arnynt a'u defnyddio fel gweithgareddau dysgu ac addysgu ychwanegol yn y dosbarth, lle y bo'n briodol.

Yn ogystal gellir defnyddio'r eitemau sampl gweithdrefnol fel sail i drafodaeth yn y dosbarth, ac i ddangos technegau prawf da. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd darllen y cwestiwn yn ofalus, ble i ysgrifennu'r atebion, perthnasedd dangos y gwaith cyfrifo i gael credyd rhannol, rheoli amser yn dda a manteision gwirio atebion.

Efallai y bydd athrawon am gefnogi'r dysgwyr drwy drafod dulliau gwahanol o ateb eitemau sy'n werth 2 farc. Er enghraifft, gallai athrawon lungopïo ystod o atebion dienw a gofyn i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bach i roi'r atebion yn eu trefn o'r 'gorau' i'r 'gwaethaf', a nodi nodweddion da pob ateb gan roi rhesymau dros hynny.

- ***Marcio'r eitemau sampl***

Darperir cynllun marcio, sy'n nodweddiadol o'r rhai a fydd yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r profion byw. Fe'i cynlluniwyd i'w ddefnyddio'n gyflym ac yn deg a cheir canllawiau clir ar pryd a sut i roi credyd rhannol. Mae'r canllawiau marcio cyffredinol yn amlinellu egwyddorion marcio er mwyn hwyluso cysondeb ar draws ysgolion.

**1**




Faint o arian? [ c ]

1m


**2** Ysgrifennwch y rhifau hyn yn eu trefn.

34 15 26 47

| 15 | | | |
|---|---|---|---|
| **y lleiaf** | | | **y mwyaf** |

1m

3 Dewisodd y plant yma eu hoff anifail anwes.




Faint sydd wedi dewis **ci**?

1m

Pa anifail anwes mae'r **rhan fwyaf** o'r plant wedi'i ddewis?

1m

**Pysgodyn** oedd dewis Sam.

Dangoswch hyn ar y siart.


1m

**4**

28 + 7 = ☐ 1m

17 − 9 = ☐ 1m

**5** Defnyddiwch bren mesur i fesur hyd y llinell hon.




☐ centimetr 1m

Mae bwrdd yn **un metr** o hyd.

Faint o **gentimetrau** yw hynny?


☐ centimetr 1m

**6** Cysylltwch pob cloc gyda'r amser cywir.




























2m

7



Pa **ffracsiwn** sydd wedi'i liwio? ☐ 1m

8

+ = −

Defnyddiwch ddau o'r arwyddion i wneud brawddeg rifau.

25 ◯ 10 ◯ 15 1m

Nawr gwnewch frawddeg rifau **wahanol**.

25 ◯ 10 ◯ 15 1m

9



**Ysgrifbinnau**
**20c yr un**

Mae Tom yn prynu **chwe** ysgrifbin.

Mae'n talu â darn £2

Faint o newid mae Tom yn ei gael?

c

2m

## Deunyddiau sampl gweithdrefnol: Canllawiau marcio

Mae'n bwysig bod y profion yn cael eu marcio'n gywir. Mae'r cwestiynau a'r atebion isod yn eich helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut i farcio'n deg ac yn gyson.

- ***Oes rhaid i'r dysgwyr ddefnyddio'r blychau ateb?***

Ar yr amod nad oes amwysedd, gall y dysgwyr roi eu hateb unrhyw le ar y dudalen. Os oes mwy nag un ateb rhaid marcio'r un sydd yn y blwch ateb, hyd yn oed os yw'n anghywir. Fodd bynnag, os yw'n amlwg bod ateb anghywir yn deillio o wall trawsgrifio (e.e. bod 65 wedi cael ei gopïo fel 56), marciwch yr ateb sydd yn y gwaith cyfrifo.

- ***Beth os bydd y dysgwyr yn dewis dull nad yw'n cael ei ddangos yn y cynllun marcio?***

Mae'r cynlluniau marcio'n dangos y dulliau mwyaf cyffredin, ond efallai y bydd dulliau eraill yn haeddu credyd – defnyddiwch eich barn orau. Mae unrhyw ddull cywir, pa mor idiosyncratig bynnag, yn dderbyniol.

- ***Oes ots os bydd y dysgwr yn ysgrifennu'r ateb yn wahanol i'r hyn a ddangosir yn y cynllun marcio?***

Dylai atebion sy'n cyfateb o ran rhifau (e.e. wyth ar gyfer 8, neu dau chwarter neu 0.5 ar gyfer hanner) gael eu marcio fel atebion cywir oni fydd y cynllun marcio'n nodi'n wahanol.

- ***Sut y dylwn i farcio atebion sy'n ymwneud ag arian?***

Gellir dangos arian mewn punnoedd neu geiniogau, ond os bydd sero ar goll, e.e. £4.7, dylid marcio'r ateb yn anghywir.

- ***Sut y dylwn i farcio atebion sy'n ymwneud ag amser?***

Yn y byd go iawn, dangosir amseroedd mewn nifer o wahanol ffyrdd felly dylech dderbyn, er enghraifft, 02:30, 2.30, hanner awr wedi 2, ac ati. Peidiwch â derbyn 2.3 gan fod hyn yn amwys. Dylid defnyddio'r un egwyddor ar gyfer marcio cyfnodau o amser, e.e. ar gyfer dwy awr a hanner dylech dderbyn 2.5 ond nid 2.5pm.

- ***Beth os bydd y dull yn anghywir ond yr ateb yn gywir?***

Oni fydd y cynllun marcio'n nodi'n wahanol, dylid marcio atebion cywir fel rhai cywir hyd yn oed os bydd y gwaith cyfrifo yn anghywir oherwydd efallai y bydd dysgwyr wedi ailddechrau heb ddangos y dull newydd a ddefnyddiwyd ganddynt.

- ***Beth os bydd y dysgwr wedi dangos dealltwriaeth ond wedi camddarllen y wybodaeth sydd yn y cwestiwn?***

Ar gyfer eitem sy'n cynnwys dau farc (neu fwy), os bydd ateb anghywir yn deillio o gamddarllen gwybodaeth a roddir yn y cwestiwn ac nad yw'r cwestiwn yn haws o ganlyniad i hynny, yna tynnwch un marc yn unig. Er enghraifft, os bydd cwestiwn 2 farc yn 86 x 67 a bod y dysgwr yn cofnodi 96 x 67 ac yn rhoi 6432 fel ateb, dim ond un marc y dylid ei roi. Mewn cwestiwn sy'n cynnwys un marc, ni ellir rhoi unrhyw farciau.


- ***Beth y dylwn i ei wneud am waith sydd wedi'i groesi allan?***

Gallwch farcio gwaith cyfrifo sydd wedi'i groesi allan sydd heb gael ei ddisodli gan waith cyfrifo arall os oes modd ei ddarllen.

- ***Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwall rhifol a gwall cysyniadol?***

Gwall rhifol yw un lle y ceir llithriad, e.e. gydag 86 x 67, os bydd y dysgwr yn cyfrifo $6 \times 7 = 54$ o fewn ateb sy'n gywir fel arall. Gwall cysyniadol yw camddealltwriaeth fwy difrifol lle nad oes unrhyw farciau ar gael am y dull, er enghraifft os caiff 86 x 60 ei gofnodi fel 516 yn hytrach na 5160

## Deunyddiau sampl gweithdrefnol Blwyddyn 2: Cynllun marcio

| C | Marciau | Ateb | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1 | 1m | 17c | |
| 2 | 1m | 15 26 34 47 | |
| 3i | 1m | 3 | |
| 3ii | 1m | cath | |
| 3iii | 1m | Yn ychwanegu un bloc i'r golofn 'pysgodyn' | Derbyniwch unrhyw arwydd clir, e.e. nid oes angen lliwio'r bloc na'i labelu â 'Sam' |
| 4i | 1m | 35 | |
| 4ii | 1m | 8 | |
| 5i | 1m | 9 centimetr | Derbyniwch 8.8cm i 9.2cm yn gynwysedig |
| 5ii | 1m | 100 centimetr | |
| 6 | 2m | Yn cysylltu'r pedwar amser yn gywir, e.e.<br> | Derbyniwch unrhyw ffyrdd diamwys o gysylltu |
| | **Neu** 1m | Yn cysylltu dau neu dri o'r amseroedd yn gywir | |
| 7 | 1m | $\frac{3}{4}$ | |

| C | Marciau | Ateb | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 8i | 1m | 25 = 10 + 15<br>Neu<br>25 – 10 = 15 | |
| 8ii | 1m | 25 – 10 = 15<br>Neu<br>25 = 10 + 15 | Rhaid i'r canlyniad fod yn wahanol i 8i |
| 9 | 2m | 80c | |
| | **Neu**<br>1m | 120 neu 1.20 i'w weld<br>Neu<br>Yn defnyddio cyfanswm anghywir (ond nid £1) i ganfod y newid cywir allan o £2 | Enghraifft ar gyfer 1m:<br>Ysgrifbinnau 130c, newid 70c |

© Hawlfraint y Goron 2013